CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

DEDDF YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDU A PHLISMONA 2014

GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (RHEOLI CŴN – PARC I'R CYHOEDD, ABERDÂR) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF 2020

Drwy arfer ei bwerau o dan Adran 59 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ('y Ddeddf'), mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ('y Cyngor') yn gwneud y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus canlynol:

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn – Parc i'r Cyhoedd, Aberdâr) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 2020 ('y Gorchymyn').

2. Mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 1 Hydref 2020, a bydd mewn grym am gyfnod o dair blynedd ar ôl y dyddiad hwnnw.

TROSEDDAU

3. Effaith y Gorchymyn hwn yw gorfodi'r amod canlynol yn Rhondda Cynon Taf:

   (i) Ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gyfrifol am gi ei gadw ar dennyn ar bob adeg yn y Parc i'r Cyhoedd, Aberdâr.

4. At ddibenion y Gorchymyn hwn:

4.1 ystyr 'person sy'n gyfrifol am gi' yw person sydd â chi yn ei feddiant yn rheolaidd ar unrhyw adeg, heblaw bod person arall yn gyfrifol am y ci ar yr adeg honno;

4.2 ystyr 'Parc i'r Cyhoedd, Aberdâr' yw'r holl dir y tu mewn i ffiniau'r Parc i'r Cyhoedd, Aberdâr, fel sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1;

4.3 ystyr 'Swyddog Awdurdodedig' yw cwnstabl neu berson y mae'r Cyngor wedi ei awdurdodi i orfodi'r Gorchymyn hwn.

5. Mae'n drosedd i berson, heb esgus rhesymol, wneud unrhyw weithgaredd sydd wedi ei wahardd o dan y Gorchymyn hwn, neu fethu â chydymffurfio â gofyniad sy'n berthnasol iddo o dan y Gorchymyn hwn.

6. Mae'r Cyngor yn fodlon bod yr amodau yn Adran 59 o'r Ddeddf wedi cael eu bodloni a'i fod, yn yr holl amgylchiadau, yn addas ac yn rhesymol gwneud y Gorchymyn hwn at ddibenion gwahardd y gweithgareddau uchod a chyflwyno'r gofynion sydd wedi eu nodi. Mae effaith neu effaith debygol y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod yn, effaith gyson neu barhaus, i'r graddau y byddan nhw'n afresymol, gan gyfiawnhau'r cyfyngiadau sy'n cael eu gorfodi gan y Gorchymyn hwn.

EITHRIADAU

7. Nid yw darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i berson yn yr amgylchiadau canlynol:

   (i) Mae ei enw ar gofrestr o bobl ddall neu rannol ddall sydd wedi ei llunio yn unol ag Adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

   (ii) Mae ei enw ar gofrestr o bobl "sydd â nam ar eu golwg", "sydd â nam difrifol ar eu golwg", neu "sydd â nam ar eu golwg ac ar eu clyw sydd, gyda'i gilydd, yn cael effaith sylweddol ar eu bywydau bob dydd", sydd wedi ei llunio yn unol ag Adran 18 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

   (iii) Mae ganddo anabledd sy'n effeithio ar ei symudedd, ei fedrusrwydd llaw, ei allu i gydsymud y corff, ei allu i godi neu gario gwrthrychau pob dydd, neu ei allu i'w symud mewn ffordd arall, i'r graddau nad yw'n rhesymol disgwyl iddo gael gwared ar y baw.

   (iv) Mae ganddo anabledd arall ac, o'i herwydd, nid yw'n rhesymol disgwyl iddo gael gwared ar y baw.

8. Nid yw darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i gi sydd wedi cael hyfforddiant gan elusen gofrestredig i gynorthwyo person sydd ag anabledd, ac mae person anabl yn dibynnu arno am gymorth.

9. At ddibenion y Gorchymyn hwn, ystyr 'anabledd' yw cyflwr sy'n cyfateb i'r diffiniad o anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010.

10. Ni fydd dim yn y Gorchymyn hwn yn berthnasol i weithgareddau ci gwaith, tra bod y ci hwnnw'n gweithio. Mae hyn yn cynnwys cŵn sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cyflawni gwaith chwilio ac achub mewn argyfwng, gwaith gorfodi'r gyfraith, gwaith Lluoedd Arfog ei Mawrhydi, a gwaith cŵn ffermydd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer corlannu neu yrru anifeiliaid.

11. Pan fo person sy'n gyfrifol am gi am ddibynnu ar un o'r eithriadau yn y Gorchymyn hwn, arno ef y bydd y baich o ran profi ei fod yn bodloni gofynion yr eithriad hwnnw.

COSBAU

12. Mae person sy'n euog o drosedd o dan y Gorchymyn hwn yn agored i euogfarn ddiannod a dirwy nad yw'n uwch na lefel 3 o'r raddfa safonol.

13. Caiff Swyddog Awdurdodedig gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig i berson sy'n torri'r Gorchymyn hwn, a fydd yn gyfle iddo gael ei ryddhau o fod yn agored i euogfarn o'r drosedd, os bydd yn talu cosb benodedig.

SÊL GYFFREDIN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

a osodwyd yma ger bron

.....A. S. Wilkins.....

Andy Wilkins

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

AWDURDOD/ AUTHORITY	
Cynllun Dirprwyo/ Scheme of Delegation	
DYDDIAD/ DATE	
ARDYSTIWYD GAN/ CERTIFIED	

12011/1

ATODLEN 1